

CAREIUM ELIZA


SUT I DDEFNYDDIO'R CANLLAW HWN



Mae'r canllaw hwn ar gyfer cwsmeriaid ac aelodau o'r teulu. Mae'n esbonio sut i ddefnyddio'r larwm Careium Eliza.

SUT MAE'N GWEITHIO


1. Pwyswch y **botwm cymorth** ar eich larwm gwddf, larwm ar yr arddwrn neu'r uned Eliza
2. Bydd gweithredwr yn ateb drwy'r ddyfais siarad
3. Gallwch siarad â nhw **o unrhyw le yn yr ystafell**



PRYD I WASGU'R BOTWM CYMORTH

Pwyswch y botwm cymorth os ydych chi:

- Wedi cwmpo
- Yn teimlo'n anhwylus
- Angen help neu sicrwydd



GWISGO'CH LARWM

- Gwisgwch larwm o gwmpas eich gwddf neu'ch arddwrn **bob amser**, gan gynnwys yn y nos
- Mae'n **gwrthsefyll dŵr** a gellir ei wisgo yn y gawod, ond peidiwch â'i wisgo yn y bath
- **Peidiwch â gadael eich larwm ar fwrdd neu mewn ystafell arall**

PROFI EICH LARWM

- Profwch eich larwm **unwaith y mis**
- Dewiswch ddyddiad hawdd i'w gofio, megis dyddiad pen-blwydd
- Dylech bob amser roi gwybod i'r gweithredwr mai galwad brawf ydyw

BETH SY'N DIGWYDD MEWN TORIAD TRYDAN


- Mae gan Eliza **batri wrth gefn**
- Bydd yn parhau i weithio am hyd at 72 awr
- Pan fydd pŵer yn dychwelyd, bydd yn ailwefru'n awtomatig

OS YW'R UNED YN BIPIO NEU Â GOLEUADAU RHYBUDD

Gall hyn olygu:

- Nid yw'n gwefru
- Batri isel
- Problem gyda'r rhwydwaith

 **Cysylltwch â ni os bydd hyn yn digwydd**



AWGRYMIADAU PWYSIG

- Peidiwch â datgysylltu'r uned
- Peidiwch â'i symud heb ddweud wrthyn ni
- Gofalwch ei fod yn lân ac yn sych

Angen help?

Os ydych chi'n ansicr neu os nad yw rhywbeth yn gweithio:

- Cysylltwch â ni drwy ffonio **0300 333 2222**
- Rydyn ni'n argymhell eich bod yn cadw'r canllaw hwn ger yr uned llinell gymorth

